



Llyr Gruffydd AS  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Eich Cyf:  
Ein Cyf:  
E-bost: NFUCymru@nfu.org.uk  
Ffôn: 01982 554200  
Dyddiad: 6ed Gorffennaf 2021

Annwyl Llyr

### Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

Ar ran NFU Cymru a'i aelodaeth, mae Aled a fi yn ysgrifennu atoch i'ch llongyfarch yn ddiffuant ar gael eich ethol yn gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

O edrych yn ôl dros y ddau ddegawd blaenorol, mae NFU Cymru wedi bod yn ffodus i fwynhau perthynas agos gyda'r pwyllgorau perthnasol yn y Bae, ac mae hyn yn eu dro wedi fforddio cyfle gwerthfawr i'r Undeb i amlygu rhai o'r pynciau yna sydd yn bwysig i ein haelodau ac i graffu ar waith Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau yn awyddus i ymgysylltu â gwaith yr oll bwyllgorau perthnasol yn y chweched Senedd.

Yn hwyrach eleni, bydd Glasgow yn croesawu Cynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig COP26. Mae NFU Cymru yn ymwybodol iawn o ymrwymïadau ein sector i'r hinsawdd, ac rydym wedi gosod targed o fod yn allyrrwr nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2040. Mae ein huchelgais ar gyfer 2040 yn gofyn am gynllunio busnes a phenderfyniadau tymor hir ar ein ffermydd, a bydd fframwaith o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn ofynnol os ydym am wireddu ar ein huchelgais.


Rydym yn tybio taw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith fydd yn ymgymryd â'r adolygiad o'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, fel y cytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar y 9fed o Fehefin. Edrychwn ymlaen at yr adolygiad yma ac os fydd yna gyfle i NFU Cymru fewnbynnu i'r broses yma, yna wrth gwrs fe fydd yr Undeb yn hapus i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar fel y bo'n briodol.

Fe edrychwn ymlaen yn fawr at weithio yn agos gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ac mae swydd-ddeiliaid a staff yr Undeb yn barod i helpu gyda pha bynnag ffrydiau gwaith ac ymholiadau mae'r Pwyllgor yn dewis ymwneud â.

Buasem yn ddiolchgar iawn o'r cyfle am sgwrs a chyfarfod rhithiol petai hynny yn bosib. Mae Huw Thomas wrth law i helpu gyda unrhyw drefniadau am gyfarfod o'r fath - 07813 670324 neu [huw.thomas@nfu.org.uk](mailto:huw.thomas@nfu.org.uk)

Unwaith eto, ein llongyfarchiadau ar eich etholiad yn gadeirydd ar y Pwyllgor holl bwysig yma

Yn ddiffuant

Handwritten signature of John Davies in cursive script.

John Davies  
Llywydd  
**NFU Cymru**

Handwritten signature of Aled Jones in cursive script.

Aled Jones  
Dirprwy Lywydd  
**NFU Cymru**